# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Yr Awdurdod Claddu

## yn

## Y Fynwent Newydd

## a

## Mynwent Eglwys Deiniol Sant

## Llanuwchllyn

**Ionawr 2022**

**Cyflwyniad:**

Mae Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yw’r Awdurdod Claddu sydd yn gyfrifol am ddwy fynwent yng nghymuned Llanuwchllyn:

(a) Y Fynwent Newydd.
(b) Mynwent yr Eglwys.

Rydym wedi cynhyrchu'r canllaw hwn er mwyn:

- eich cynorthwyo i drefnu claddedigaeth
- rhoi gwybodaeth i chi am y cyfyngiadau a'r amodau sy'n berthnasol i brynu hawliau claddu unigryw
- gwneud yn siŵr ein bod yn darparu lefel gyson o wasanaeth i chi, ac
- eich bod chi'n ymwybodol o'ch hawliau a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r fynwent.

Mae hefyd yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan y gyfraith.

Swyddog y Fynwent sydd yn cyflawni’r holl ddyletswyddau gweinyddol am y ddwy fynwent ar ran y Cyngor Cymuned, ac mae’n gofalu am y cofnodion statudol. Gellir gweld y cofnodion trwy drefniant o flaen llaw. Bydd ffi am ddarparu copïau.

Fe gedwir hawl gan y Cyngor i adolygu’r rheolau a’r ffioedd fel y bo’r angen. Gweithredir rheolaeth y Mynwentydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ogystal ag unrhyw orchymyn a ddarperir gan y Llywodraeth Cymru.

Swyddog y Fynwent yw:
Mrs Bethan Edwards,
Perthi,
Cae Gwalia,
Llanuwchllyn

(01678) 540 601

Mae Swyddog y Fynwent yn dirprwyo’r gwaith yn achlysurol i Glerc y Cyngor: Lis Puw, Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW (01678) 540 654 neu 07896 964120.

**Rhybudd**

Am resymau diogelwch a hwylustod ymarferol y gwaith cynnal a chadw, cedwir y Fynwent Newydd fel mynwent lawnt. Golyga hyn dros y blynyddoedd nesaf (yn ddibynnol ar y gyllideb fydd ar gael) y bydd angen gwaith addasu ar rai beddrodau (e.e. symud cyrbiau a therfynau cerrig/llechi) a weithredir gan gontractwr cymwys ar ran yr Awdurdod Claddu. Gwneir pob ymdrech rhesymol i wneud hyn gyda chydweithrediad y teuluoedd perthnasol ble yn bosibl. Am unrhyw wybodaeth bellach am y gwaith arfaethedig, cysyllter â Swyddog y Fynwent.

**I sylw teulu’r Ymadawedig (neu’r teulu trwy asiantaeth yr Ymgymerwyr):**

Trefniadau cyn claddu:

1. Rhaid rhoi rhybudd o gladdedigaeth (yn cynnwys claddu llwch) i Swyddog y Fynwent o leiaf dri diwrnod cyn y Gladdedigaeth, gyda’r Rhybudd Claddu ac unrhyw ffurflen berthnasol arall. Ni chaniateir gwasgaru llwch yn y fynwent.

2. Ni chaniateir claddu cyn 10,00 o'r gloch y bore nac ar ôl 3.00 o'r gloch y prynhawn yn yr Haf. (2.00 o'r gloch yn y Gaeaf). Ni cheir claddu ar y Sul nac ar adeg gwyliau statudol.

3. Mae'n ofynnol pan fo ail agor bedd (neu yn achos agor tro cyntaf bedd sydd gyda'r hawl claddu cyfyngedig wedi ei bwrcasu ymlaen llaw), fod y rhybudd i'r Swyddog y Fynwent yn cynnwys caniatâd ysgrifenedig Deilydd cyfredol yr hawl claddu cyfyngedig hwnnw.

4. Rhaid talu'r holl ffioedd priodol i Swyddog y Fynwent (neu'r Ymgymerwr angladdau) gyda'r Rhybudd Claddu (neu gyda chais i osod cofeb) yn unol â ffioedd cyfredol y Cyngor. Fe gedwir hawl gan y Cyngor i adolygu'r rheolau a'r ffioedd fel y bo'r angen.

   4.1 Os bydd yr ymadawedig yn marw o fewn 5 mlynedd wedi gadael y gymuned, bydd ffi'r gymuned yn berthnasol (*mae hyn hefyd yn wir pan fydd amgylchiadau anorfod afiechyd wedi gorfodi preswylio tu allan i'r gymuned am fwy na phum mlynedd).*
   4.2 Bydd cymar yn cael ei gladdu am ffi'r gymuned – pa bynnag lleoliad y breswylfa.

5. Mae'n arfer da i roi rhybudd i Bennaeth Ysgol O. M. Edwards o amser claddu fel y gellir gwneud trefniant priodol ar gyfer y disgyblion (01678) 540242.

<u>Plotiau a beddfeini:</u>

1. Ni chaniateir prynu hawl claddu cyfyngedig ond pan fo angen i'w ddefnyddio ar y pryd ac ni chaniateir agor bedd oni bai fod ei angen o fewn tri diwrnod.

2. Os gwnaethpwyd taliad yn y gorffennol yn nodi safle penodol i fedd, cofier mai PRYDLESU am 75 mlynedd a wnaethpwyd, nid *prynu* darn o dir.

3. **Ni chaniateir gosod unrhyw gofeb heb yn gyntaf dderbyn caniatâd ysgrifenedig y Cyngor / Swyddog y Fynwent.**

4. Mae cyfrifoldeb am feddrod (hynny yw, y gofeb) yn disgyn ar y sawl sydd a'r hawl i gladdu yno neu ei gynrychiolwyr.

5. **Perchenogion y cofebion sydd â'r cyfrifoldeb i'w cynnal a'u cadw mewn cyflwr da.**
   5.1 Pan fo angen atgyweirio cofeb rhaid rhoi blaen rybudd i Swyddog y Fynwent gan sicrhau gwasanaethau person cymwys a phrofiadol i ymgymryd â'r gwaith (*gweler rhestr o dorwyr beddi cydnabyddedig y Cyngor*).
   5.2 Hysbysir perchnogion (os ydynt yn wybyddus) pan fo angen atgyweirio cofebion, ac oni atgyweirir hwy o fewn yr amser penodedig, gall y Cyngor weithredu i wneud y gofeb yn ddiogel (yr hawl wedi ei roi dan Gyfarwyddyd Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977).
   5.3 Gall y Cyngor weithredu mewn modd uniongyrchol ynghylch unrhyw gofeb y mae'n credu sydd yn creu risg iechyd a diogelwch o arwyddocâd. Golyga hyn weithredu heb roi rhybudd ffurfiol ymlaen llaw i'r teuluoedd.

6. Cedwir y Fynwent fel mynwent lawnt ac NI chaniateir palu tir bedd na phlannu arno unrhyw blanhigyn na chreu border neu unrhyw ddiben cyffelyb.

7. Ni chaniateir nodweddion ar y tir o flaen carreg neu gofeb ac eithrio eu bod ar droed neu blinth o faint a gwedd wedi ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Swyddog y Fynwent.

8. Ni chaniateir i'r cyhoedd ddefnyddio chwynladdwr o fewn ffiniau'r fynwent.

9. Ni chaniateir gwydr yn y fynwent.

10. Ni chaniateir gwrthrychau a ellir eu hystyried yn ymwthiol gan alarwyr eraill, yn cynnwys goleuadau solar a chlychau gwynt.

11. Gwaherddir cŵn o'r mynwentydd, ac eithrio cŵn tywys.

12. Caniateir gosod torch neu flodeudorch ar feddau rhwng mis Tachwedd a dechrau Mawrth.

13. Ar ddechrau a diwedd y tymor tyfu bydd gwirfoddolwyr o'r Cyngor yn tacluso'r Fynwent gan gynnwys gwaredu unrhyw flodau / dorchau wedi gwywo.

14. Mae'r hawl gan y Cyngor i weithredu yn unol â'r gofyn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau uchod a pholisi'r fynwent. Am wybodaeth bellach cysyllter â Swyddog y Fynwent. Mrs Bethan Edwards, Perthi, Llanuwchllyn (01678) 540601.

**Ymgymerwyr a Seiri Maen:**

**Beddi**

1. Rhaid i'r gwaith agor bedd gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladwaith 1961 ac 1966 a'r codau ymarfer gwaith perthnasol.

2. Mae pob ymgymerwr a gymeradwyir i agor bedd yn gyfrifol am dacluso ar ei ôl a chludo unrhyw bridd a cherrig na ddefnyddir i gau'r bedd o'r fynwent yn unionsyth ar ôl yr angladd. Os na wneir hyn gall y Cyngor wneud y gwaith ac adennill y costau oddi wrth yr ymgymerwr.

3. Caniateir defnydd peiriant bychan "mini digger" yn unig o fewn y mynwentydd.

4. Tra bydd bedd yn agored mae'n angenrheidiol ei orchuddio'n ddigonol.

5. Mae pob plot i gladdedigaeth yn mesur 2.44 medr (8 troedfedd) o hyd, 1.22 medr (4 troedfedd) o led a 2.44 medr (8 troedfedd) o ddyfnder, hynny yw, bedd newydd ar gyfer tri chladdedigaeth.

6. Ni chaniateir llai na 0.6 medr (2 droedfedd) o bridd uwchben yr arch olaf o wyneb y tir.

7. Wrth ôl lenwi'r bedd, mae'n ofynnol i'r ymgymerwr wasgu'r pridd pob 6 modfedd trwy sathru'r pridd er mwyn ceisio lleihau effaith pridd y bedd yn suddo a chostau / gwaith ail lefelu. . Rhaid i'r ymgymerwr symud unrhyw bridd yn weddill o'i waith i safle penodedig, a gosod unrhyw flodau a thorchau yn daclus ar y bedd.

8. Bydd y sawl sy'n agor neu gau bedd yn gyfrifol am unrhyw ddifrod a achosir i drydydd parti wrth wneud y gwaith.

9. O bryd i'w gilydd, bydd y Cyngor yn defnyddio pridd i lenwi tyllau er mwyn lefelu ardaloedd sydd wedi suddo o amgylch cofebion. Gwasgerir hadau gwair ar yr ardaloedd hyn.

**Gweddillion amlosgedig**

1. Mae ardal ddynodedig yn y fynwent ar gyfer claddu gweddillion amlosgedig. Mae plot claddu gweddillion yn llai na maint bedd llawn a gall gynnwys hyd at 4 blwch. Gall gweddillion amlosgedig hefyd gael ei gladdu mewn beddau maint llawn. Gall beddau

maint llawn gynnwys nifer o flychau gweddillion, ond dylid meddwl am y lle cyfyngedig ar gyfer arysgrifau ar gofebion.

2. Mae pob plot i weddillion amlosgedig yn mesur 1.52 medr (5 troedfedd) o hyd, 1.22 medr (4 troedfedd) o led a 0.6 medr (2 droedfedd) o ddyfnder.

3. Ni chaniateir llai na 0.45 medr (18 modfedd) o bridd uwchben blwch o wyneb y tir.

**Cofebion**

1. Ni chaniateir gosod unrhyw gofeb heb yn gyntaf ei chymeradwyo yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig gan y Cyngor.  Dylid cyflwyno dyluniad a mesuriadau llawn i Swyddog y Fynwent.

2. Rhaid i'r gofeb gydymffurfio â pholisi'r Cyngor ynghylch maint, ffurf a'r dulliau gosod.

   Ni ddylai mesuriadau cofebion fod yn hwy na :

   **Plot Bedd**


| | |
|---|---|
| Carreg sylfaen | 36 modfedd o led x 24 modfedd o hyd |
| Plinth | 30 modfedd o led x 12 modfedd o hyd |
| Carreg | 24 modfedd o led x 30 modfedd o uchder (hyd at 4 modfedd o drwch) |

   Uchafswm uchder y gofeb o'r ddaear (gan gynnwys carreg sylfaen): **36 modfedd**

   **Plot Gweddillion Amlosgedig**

| | |
|---|---|
| Plinth | 24 modfedd o led x 12 modfedd o hyd |
| Carreg | 21 modfedd o led x 27 modfedd o uchder (hyd at 3 modfedd o drwch) |

   Uchafswm uchder y gofeb o'r ddaear (gan gynnwys carreg sylfaen): **30 modfedd**



3. Cofeb lawnt fydd ar bob plot newydd. Ni chaniateir cyrbiau na gosod terfynau o gwmpas safle bedd.

4. Ni chaniateir naddu a thrwsio cofebion y tu fewn i'r fynwent (ar wahân i ail-osod carreg). Bydd rhaid cludo pob defnyddiau a chofadeiliau o'r fynwent wrth baratoi am gladdedigaeth gan sicrhau na ddifrodir beddau eraill nac unrhyw beth o fewn ffiniau'r fynwent.

**Iechyd a Diogelwch**

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yw'r awdurdod claddu a pherchennog y Fynwent Newydd. Cyngor Cymuned Llanuwchllyn hefyd sydd â chyfrifoldeb am Fynwent yr Eglwys yn Llanuwchllyn.

Mae Cyngor Cymuned Llanuwchllyn felly'n ymarfer y ddyletswydd gofal eithafol (ultimate duty of care) oherwydd gwahanol ddeddfwriaethau. Mae felly yn gosod a gweithredu Polisi yn ymwneud â'i fynwentydd fydd yn cyfeirio at iechyd a diogelwch a'r gwaith a wneir gan ymgymerwyr, waeth bynnag pwy sydd yn eu cyflogi.

Rhaid i Gyngor Cymuned Llanuwchllyn dderbyn asesiad risg a chopi o ddull gwaith diogel gan yr agorwr beddi neu Drefnydd Angladdau, a rhaid i'r Cyngor ei gymeradwyo'n ffurfiol er mwyn cael hawl i gyflawni gwaith agor bedd ym mynwentydd y Cyngor. Disgwylir bod seiri maen yn dilyn canllawiau NAMM a BRAMM.

Fel rhan o'r weithred hwn bydd y Cyngor yn disgwyl fod yr agorwr beddi yn defnyddio deunyddiau pwrpasol - yn benodol '*shoring equipment'* priodol – wrth wneud y cloddiad i gefnogi'r ddaear ac atal cwympiad, ac i warchod iechyd a diogelwch yr agorwr beddi wrth wneud y gwaith, y galarwyr, y clerigwyr, a staff y cyfarwyddwr angladdau yn ystod y gwasanaeth claddu.

Bydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn hefyd yn disgwyl, yn flynyddol, copi o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y Trefnydd Angladdau sydd yn berthnasol i unrhyw waith a wneir ym mynwentydd y Cyngor hwn.

Yn ystod unrhyw gyfnod pan na fydd yr agorwr beddi / trefnydd angladdau ar y safle wedi iddo wneud y gwaith cloddio, bydd rhaid gosod rhwystr dros dro o amgylch y bedd, neu sicrhau fod y bedd wedi ei orchuddio yn ddiogel.

Bydd aelodau'r Cyngor, yn achlysurol, yn monitro gwaith Ymgymerwyr ac fe awdurdodir yr aelodau hynny i atal y gwaith os nad yw Ymgymerwr yn cydymffurfio a'r polisi hwn.

Bydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn archwilio'r cerrig ar gyfer diogelwch y cyhoedd a gweithwyr. Os bydd carreg neu gofeb yn rhydd, caiff y teulu wybod am hyn a rhoddir 28 diwrnod i waith diogelu cael ei wneud. Os na fydd gwaith trwsio'n cael ei wneud o fewn yr amser penodedig neu os oes bygythiad i ddiogelwch sydd yn gofyn am ymateb brys, bydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn gweithredu ar unwaith i wneud y safle'n ddiogel; gall hyn olygu fod y garreg yn cael ei rhoi i orwedd neu eu symud.

Adolygir y Polisi hwn yn rheolaidd.

Adolygwyd gan Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn Ionawr 2022